# Sosban fach

**Mae bys Meri-Ann wedi brifo,**
**A Dafydd y gwas ddim yn iach.**
**Mae'r baban yn y crud yn crio,**
**A'r gath wedi sgrapo Joni bach**

**Sosban fach yn berwi ar y tân,**
**Sosban fawr yn berwi ar y llawr,**
**A'r gath wedi sgrapo Joni bach.**

**Dai bach y sowldiwr,**
**Dai bach y sowldiwr,**
**Dai bach y sowldiwr,**
**A gwt ei grys e mas.**

**Mae bys Meri-Ann wedi gwella,**
**A Dafydd y gwas yn ei fedd;**
**Mae'r baban yn y crud yn chwerthin**
**A'r gath wedi huno yn ei hedd.**